



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Memorandwm Esboniadol

# Deddf Cynllunio (Cymru) 2026 a Deddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) 2026

Ebrill 2026



“A thrwy gyngor a chytundeb y doethion  
a ddaeth yno, archwiliwyd yr hen gyfreithiau,  
gadawyd rhai ohonynt i barhau, diwygiwyd  
eraill, a dilëwyd eraill yn gyfan gwbl,  
a gosodwyd rhai eraill o’r newydd.”

*Llyfr Iorwerth 1240*

# Memorandwm Esboniadol i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026 a Deddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) 2026

Noder: Lluniwyd y fersiwn hwn o'r Memorandwm Esboniadol i helpu darllenwyr i ddeall cefndir Deddf Cynllunio (Cymru) 2026 a Deddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) 2026. Paratowyd fersiynau blaenorol i ddilyn gofynion Rheolau Sefydlog y Senedd pan oedd y Biliau (a ddaethant, yn eu tro, yn Ddeddfau 2026) ger bron y Senedd. Mae'r fersiynau blaenorol hynny o'r dogfennau ar gael ar wefan y Senedd: [Bil Cynllunio \(Cymru\)](#) a [Bil Cynllunio \(Darpariaethau Canlyniadol\) \(Cymru\)](#).

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol a'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio yn Llywodraeth Cymru.

## Cynnwys

Rhan 1 – Cefndir y Deddfau.....	5
Disgrifiad .....	5
Y system gynllunio yng Nghymru.....	5
Rhesymau dros gydgrynhoi'r gyfraith.....	7
Dull cyffredinol.....	9
Hygyrchedd a chodeiddio cyfraith Cymru.....	11
Cydgrynhoi'r deddfwriaeth a basiwyd gan y Senedd neu a wnaed gan Weinidogion Cymru .....	12
Materion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Cynllunio .....	14
Cymhwysedd deddfwriaethol.....	18
Rhan 2 – Gwariant ychwanegol .....	19
Dadansoddiad o wariant ychwanegol.....	19
Meysydd gwariant ychwanegol a nodwyd.....	19
Asesiad o fforddiadwyedd.....	23
Crynodeb.....	23
Rhan 3 – Asesu effeithiau.....	24
Asesiad effaith integredig.....	24
Asesiad o'r effaith ar gyfiawnder.....	24

## **Atodiadau**

Atodiad A      Gohebiaeth oddi wrth Gomisiwn y Gyfraith (16 Mai 2024)

Atodiad B      Gohebiaeth atodol oddi wrth Gomisiwn y Gyfraith (23 Gorffennaf 2025)

# Rhan 1 – Cefndir y Deddfau

---

## Disgrifiad

---

1. Diben Deddf Cynllunio (Cymru) 2026 ('y Ddeddf Cynllunio') yw cydgrynhai deddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio yng Nghymru.
2. Yr hyn a olygir wrth gydgrynhoi yw dwyn ynghyd y cyfan neu'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth (sylfaenol, gan amlaf) ar bwnc penodol fel ei bod yn hawdd dod o hyd iddi, a moderneiddio ffurf y gyfraith a'r geiriad er mwyn ei gwneud yn haws ei deall a'i chymhwyso. Yn aml, wrth gydgrynhoi deddfwriaeth, mae nifer o Ddeddfau sy'n bodoli eisoes ar bwnc yn cael eu dwyn ynghyd, gan ddiweddarau a chysoni'r darpariaethau, er mwyn creu un Ddeddf newydd yn y pen draw.
3. Diben Deddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) 2026 ('y Ddeddf Darpariaethau Canlyniadol') yw diwygio a diddymu deddfiadau, a gwneud darpariaethau trosiannol ac arbedion, mewn perthynas â'r Ddeddf Cynllunio.
4. Yn aml, ymdrinnir â darpariaethau canlyniadol a throsiannol o'r fath mewn un Atodlen neu fwy i Ddeddf. Fodd bynnag, o ystyried bod gan y darpariaethau naill ai oes gyfyngedig yn ymarferol neu y byddant o ddiddordeb cyfyngedig iawn i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr cyfraith cynllunio, bydd eu gosod mewn Deddf ar wahân yn sicrhau nad yw'r darpariaethau o sylwedd (a'r rhai a ddefnyddir amlaf) yn y Ddeddf Cynllunio yn cynnwys Atodlenni hirfaith o ddarpariaethau canlyniadol a throsiannol.
5. Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn darparu gwybodaeth am y ddwy Ddeddf.

## Y system gynllunio yng Nghymru

---

6. Mae'r system gynllunio yn rheoli'r ffordd y caiff tir ei ddatblygu a'i ddefnyddio er budd y cyhoedd, gan flaenoriaethu budd cyfunol hirdymor, yn ogystal â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n rhaid iddi gymodi anghenion datblygu a chadwraeth, sicrhau buddion cymdeithasol ac economaidd, sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy a diogelu, hyrwyddo, cadw a gwella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol.
7. Mae'r system gynllunio yn seiliedig ar fframwaith deddfwriaethol sy'n deillio o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1944 a gafodd ei diwygio'n helaeth wedyn gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947 ('Deddf 1947') Gwnaeth Deddf 1947 y canlynol:

- rhoi'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu ar gyfer eu hardaloedd yng ngofal awdurdodau cynllunio lleol,
  - ei gwneud yn ofynnol i gael caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw fath o ddatblygiad a gwmpaswyd gan Ddeddf 1947,
  - cyflwyno gweithdrefnau gorfodi er mwyn rheoli achosion o dorri rheolaeth gynllunio,
  - caniatáu i awdurdodau lleol gaffael tir drwy orfodaeth at ddibenion cynllunio.
8. Roedd Deddf 1947 hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer rheoli hysbysebion a oedd yn cael eu harddangos, gwneud gorchmynion cadw coed, a rhestru a diogelu adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.
9. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn parhau i adlewyrchu prif egwyddorion y system gynllunio fel y'u nodwyd yn Neddf 1947. Tan bod y Ddeddf yn dod i rym, mae wedi'i chynnwys yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Deddf 1990), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Deddf Cynllunio 2008 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ('Deddf 2015').
10. Ynghyd â'r Deddfau hyn, mae cyfres gynhwysfawr o is-ddeddfwriaeth, a dogfennau polisi a chanllaw, gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Nodiadau Cyngor Technegol, Cylchlythyron a Llythyrau Egluro<sup>1</sup>.
11. Fel rhan o'r system, mae angen paratoi cynlluniau datblygu. Paratoir cynlluniau datblygu ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gyda'r tair haen hyn gyda'i gilydd yn creu'r 'cynllun datblygu'. Mae *Polisi Cynllunio Cymru*<sup>2</sup>, sef y ddogfen polisi cynllunio defnydd tir gynhwysfawr ar gyfer Cymru, yn dylanwadu'n fawr ar gynnwys a pholisïau tair haen y cynllun datblygu. Mae'n cynnwys datganiadau polisi ar bob prif ddefnydd tir ac felly mae'n sail i'r holl bolisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
12. Caiff y broses o roi'r cynllun datblygu a pholisïau cenedlaethol ar waith ei chyflawni drwy ystyried ceisiadau cynllunio o fewn y system rheoli datblygu. Mae'n seiliedig ar ddull cadarnhaol a rhagweithiol o lywio, ystyried, pennu a chyflawni cynigion datblygu. Caiff y system ei gweithredu gan yr awdurdod cynllunio, gan gydweithredu â'r rhai hynny sy'n cynnig datblygiadau a rhanddeiliaid eraill, yn ysbryd partneriaeth a chynwysoldeb.

---

<sup>1</sup> [Adeiladu a chynllunio | Pwnc | LLYW.CYMRU](#)

<sup>2</sup> [Polisi Cynllunio Cymru | LLYW.CYMRU](#)

13. Mae'r system gynllunio yn chwarae rôl hollbwysig ym mywydau pobl. Mae'n hanfodol i lywio a chyflawni datblygiadau cynaliadwy a chefnogi llesiant pobl ledled Cymru. Mae'n creu lleoedd sy'n cynyddu buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i'r eithaf ac yn ymgorffori gwydnwch drwy wneud penderfyniadau. Mae system gynllunio effeithiol ac effeithlon yn hanfodol i Gymru felly, ac mae angen symleiddio a chydgrynhoi'r gyfraith cyn y gellir cyflawni hyn.

## Rhesymau dros gydgyrnhoi'r gyfraith

---

14. Mae pryderon wedi'u codi ers blynyddoedd lawer am gymhlethdod y gyfraith yn y Deyrnas Unedig ac am gyflwr anhrefnus ein llyfr statud, sy'n enfawr ac yn wasgaredig. Mae'r broblem hon yn un a achoswyd nid yn unig gan yr holl ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd a'r holl led-ddeddfwriaeth, ond hefyd gan yr anghysondeb wrth fynd ati i ddiwygio, ailddiwygio ac ailwneud y deddfwriaeth honno dros amser. Mae'r arfer hwn yn creu haenau o deddfwriaeth a allai fod yn gysylltiedig â'i gilydd mewn amryw o wahanol ffyrdd gan wneud y dirwedd deddfwriaethol yn anodd iawn i ddefnyddwyr lywio eu ffordd drwyddi. Yn ogystal, mae bellach yn gyffredin i'r gyfraith fod yn wahanol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw deddfwriaeth gynllunio yn eithriad.
15. Gwnaed ymdrechion i fynd i'r afael â'r cymhlethdodau hyn yng nghyd-destun cynllunio yn y gorffennol a chaiff hanes y ffordd y mae cyfraith cynllunio wedi datblygu ei grynhoi gan Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr ('Comisiwn y Gyfraith') ym mharagraffau 1.12 i 1.19 o'i bapur ymgynghori *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017*<sup>3</sup>.
16. Arweiniodd y broses flaenorol o gydgyrnhoi'r gyfraith at Ddeddf 1990, a ddiwygiwyd gan arwain at nifer o newidiadau'n cael eu gwneud fesul tipyn sy'n golygu bod y fframwaith deddfwriaethol bellach yn swmpus ac yn dameidiog. Mae'r gwahaniaethau cynyddol rhwng y gyfraith yng Nghymru a Lloegr wedi'i gwneud yn anodd nodi'r gyfraith cynllunio yng Nghymru ac, o ganlyniad, mae'r gyfraith yn anhygyrch ac yn orgymhleth i'r rhai sy'n gweithredu ac yn defnyddio'r system gynllunio. Gwaethygyd y sefyllfa o ganlyniad i ddarnau niferus o deddfwriaeth diwygio cynllunio a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, nad oes llawer ohonynt yn berthnasol i Gymru.
17. O ganlyniad i gymhlethdod y llyfr statud cynllunio, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad manwl o gyfraith cynllunio yng Nghymru.

---

<sup>3</sup> Comisiwn y Gyfraith (2017) Papur Ymgynghori *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* [Cyfraith Cynllunio yng Nghymru – Comisiwn y Gyfraith](#)

Nododd yr adroddiad, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru – Adroddiad Terfynol*<sup>4</sup>, a'r ymgynghoriad a lywiodd yr adroddiad, fod cynllunio yn faes o'r gyfraith y mae angen rhoi sylw dybryd iddo. Drwy dynnu sylw at y problemau a'r anawsterau canlyniadol i'r rhai sy'n gweithredu ac yn defnyddio'r system gynllunio, nododd y Comisiwn y dylid symleiddio a chydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol.

18. Mae'n bwysig bod pob rhanddeiliad sy'n gweithredu neu'n defnyddio'r system neu'n cymryd rhan ynddi yn cael mynediad at y gyfraith sy'n effeithio arno'n uniongyrchol ac yn ei deall yn glir. Gall anawsterau neu wallau o ran gweithredu a dehongli'r ddeddfwriaeth sy'n creu'r posibilrwydd o her gyfreithiol arwain at oedi cyn sicrhau datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd cynaliadwy i'n cymunedau. Mae'r angen cynyddol am gyngor cyfreithiol er mwyn gweithredu neu ddefnyddio'r system gynllunio neu gymryd rhan ynddi, a'r costau uchel cysylltiedig sy'n deillio o hynny yn destun pryder hefyd. Ni ddylai pa mor effeithiol y mae'r system gynllunio yn gweithredu na pha mor effeithiol y mae cymunedau yn ymgysylltu â'r system ddibyynu ar b'un a ellir cael neu fforddio cyngor cyfreithiol.
19. Mae cyfraith hygyrch yn hanfodol er mwyn sicrhau system gynllunio effeithlon, effeithiol a syml sy'n adlewyrchu anghenion penodol Cymru. Bydd symleiddio a moderneiddio deddfwriaeth gynllunio yn Ddeddf ddwyieithog sydd wedi'i chydgrynhoi yn sicrhau manteision ymarferol gwirioneddol i bob rhanddeiliad yn y system gynllunio (o'r rhai sy'n ei gweithredu a'i defnyddio i'r rhai sydd am gael mynediad at y gyfraith er mwyn cymryd rhan yn y system) a fydd, yn ei dro, yn parhau i gyfrannu at lesiant Cymru a'i phobl. Yn bwysig ddigon, wrth i gyfraith cynllunio ddod yn fwy hygyrch ac yn gliriach, bydd yn gwella cyfranogiad a hyder y cyhoedd yn y system.
20. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan y gefnogaeth gan amrywiaeth o sectorau gwahanol a grwpiau â diddordeb o blaid y cynigion a gafodd eu cynnwys yn y ddau ymarfer ymgynghori<sup>5</sup> a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Gyfraith er mwyn llywio ei adroddiad. Nododd adroddiad Comisiwn y Gyfraith gwmpas argymelledig y prosiect cydgrynhoi a rhoi 192 o argymhellion manwl ar gyfer symleiddio a chydgrynhoi cyfraith cynllunio. Yn gyffredinol, mae'r argymhellion yn perthyn i un o dri chategori:
  - mae'r mwyafrif yn cynnwys mân ddiwygiadau technegol heb fawr ddim newidiadau mewn polisi, os o gwbl, i hwyluso'r broses gydgrynhoi,
  - rhai diwygiadau polisi sydd y tu hwnt i gwmpas y broses gydgrynhoi, a
  - gwelliannau a awgrymir i is-ddeddfwriaeth a chanllawiau.

---

<sup>4</sup> Comisiwn y Gyfraith (2018) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* (LC 383): Ar gael yn: [Cyfraith Cynllunio yng Nghymru – Adroddiad Terfynol](#)

<sup>5</sup> Ceir manylion yn [Cyfraith Cynllunio yng Nghymru – Comisiwn y Gyfraith](#)

Cyhoeddwyd ymateb terfynol Llywodraeth Cymru i'r argymhellion ym mis Tachwedd 2020<sup>6</sup>.

## Dull cyffredinol

---

21. Mae'r Ddeddf Cynllunio yn dwyn ynghyd ddeddfwriaeth o nifer o Ddeddfau ar hyn o bryd, a'r canlynol yn bennaf:

- Deddf 1990,
- Deddf Cynllunio a Digolledu 1991,
- Deddf yr Amgylchedd 1995,
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004,
- Deddf Cynllunio 2008, a
- Deddf 2015.

Ceir crynodeb o strwythur y Ddeddf Cynllunio a'i gynnwys ar ddechrau'r Nodiadau Esboniadol i'r Ddeddf (ar gael yn [Deddf Cynllunio \(Cymru\) 2026](#)).

22. Mae cymhlethdod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y system gynllunio a'r ffordd y mae hyn wedi datblygu dros amser wedi arwain at Ddeddfau nad ydynt mor glir a hygyrch ag y gallent fod. Mae'r Ddeddf Cynllunio yn gyfle i fynd i'r afael â'r cymhlethdodau hyn drwy ddod â deunyddiau cysylltiedig ynghyd, moderneiddio'r iaith, dileu anghysondebau a hepgor darpariaethau diangen. Er enghraifft, mae'r Ddeddf Cynllunio wedi symleiddio'r darpariaethau sy'n ymdrin â datblygiad mwynau drwy ddwyn ynghyd ddeddfwriaeth o dair Deddf a pheidio ag ailadrodd rhannau o'r ddeddfwriaeth sy'n hen neu nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach.

23. Wrth gydgrynhoi'r ddeddfwriaeth, gwnaed pob ymdrech i fynegi cysyniadau cyfreithiol mewn iaith sy'n ddealladwy ac yn hygyrch, ac sy'n adlewyrchu'r arferion cyfredol – o ran drafftio ac o ran gweithredu'r gyfraith. Roedd y dasg honno yn gryn her ar adegau ac aed ati i ddisodli rhai termau a oedd wedi bod yn cael eu defnyddio ers amser hir. Er enghraifft, rhoddir y gorau i ddefnyddio'r term 'ystyriaeth faterol/material consideration' a defnyddir 'ystyriaeth berthnasol/relevant consideration' yn ei le. Ystyrir bod hwn yn derm haws ei ddeall a chaiff yr un effaith gyfreithiol â "ystyriaeth faterol". Mae'r termau 'awdurdod cynllunio lleol', 'awdurdod cynllunio mwynau' ac 'awdurdod sylweddau peryglus' wedi'u disodli gan 'awdurdod cynllunio'. Mae'r defnydd hwn o 'awdurdod cynllunio' yn symleiddio ac yn moderneiddio'r ddeddfwriaeth ac yn

---

<sup>6</sup> Ar gael yn: [Ymateb manwl i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith cynllunio yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

adlewyrchu'r system unedol o lywodraeth leol. Cafodd newidiadau o'r fath eu hystyried gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad<sup>7</sup>.

24. Wrth fynd ati i gydgrynhoi, cafodd darpariaethau yn y ddeddfwriaeth bresennol eu dileu neu eu hepgor os oeddent wedi darfod, wedi'u disbyddu neu os nad oes iddynt bellach unrhyw ddefnydd neu les ymarferol. Ceir rhagor o fanylion am y newidiadau hyn yn Nodiadau'r Drafftwy'r sy'n ategu'r Ddeddf Cynllunio (ar gael yn [Deddf Cynllunio \(Cymru\) 2026](#)).
25. Mae'r rhan fwyaf o'r Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi yn hŷn na'r setliad datganoli ar gyfer Cymru. Mae hynny'n golygu nad yw rhai o'r rheolau, y gofynion a'r diffiniadau a ddefnyddir yn berthnasol i gyfraith sy'n gymwys i Gymru yn unig. Er enghraifft, mae Deddf 1990 yn darparu ar gyfer gorchmynion datblygu maerol a chymdogaeth<sup>8</sup> a chaniatâd mewn egwyddor<sup>9</sup>, sef darpariaethau sy'n berthnasol i Loegr yn unig.
26. Hefyd, nid yw rhai o'r cyrff y cyfeirir atynt yn y ddeddfwriaeth yn adlewyrchu'r trefniadau sefydliadol a chyfansoddiadol sy'n gymwys yng Nghymru. Mae'r Ddeddf Cynllunio yn ailddatgan y darpariaethau sy'n gymwys i Gymru yn unig, ac yn diweddar'u'r derminoleg a'r cyfeiriadau, gan ei gwneud yn sylweddol haws i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth ddeall y gyfraith fel y mae'n gymwys iddynt. Ymhlith materion eraill, mae'r Ddeddf Darpariaethau Canlyniadol yn sicrhau bod y gyfraith sy'n gymwys i Loegr yn gweithredu'n gywir yng ngoleuni'r Ddeddf Cynllunio.
27. Tynnir sylw hefyd at Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025, a ddiddymodd rhai darpariaethau cynllunio diangen er mwyn osgoi ychwanegu at hyd a chymhlethdod y Ddeddf Cynllunio a'r Ddeddf Darpariaethau Canlyniadol. Ceir rhagor o wybodaeth am y diddymiadau hynny yn y Nodiadau Esboniadol i'r Ddeddf<sup>10</sup>.
28. Rhywbeth arall sydd wedi bod yn destun pryder oedd y ffaith bod y rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth sylfaenol wedi'i nodi yn Neddfau Senedd y DU. O'r herwydd, fe'i deddfwyd yn Saesneg yn unig. Ar y cyfan, ychydig iawn o ddeddfwriaeth sylfaenol ddwyieithog sydd wedi bod yn berthnasol i gynllunio yng Nghymru, a'r unig eithriad yw Deddf 2015, ac mae hynny'n golygu nad yw'r gyfraith i Gymru mor hygyrch ag y dylai fod. Mae hynny hefyd wedi bod yn rhwystr i'r rheini sy'n ceisio defnyddio'r Gymraeg fel iaith y gyfraith.

---

<sup>7</sup> Comisiwn y Gyfraith (2018) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*, argymhellion 5-2 a 5-13.

<sup>8</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 61DA i 61Q.

<sup>9</sup> Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 58A.

<sup>10</sup> Gweler o dan "Ragor o Adnoddau" yn [Deddf Deddfwriaeth \(Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau\) \(Cymru\) 2025](#)

29. Yn ogystal â dwyn ynghyd ddarpariaethau perthnasol o'r Deddfau niferus, mae'r Ddeddf Cynllunio yn ymgorffori rhai darpariaethau o is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi, a pheth cyfraith achosion ac ymarfer sy'n bwysig er mwyn deall sut mae'r Deddfau hynny yn gweithredu. Mae Nodiadau'r Drafftwy'r sydd ar gael ar [deddfwriaeth.gov.uk](http://deddfwriaeth.gov.uk) yn esbonio lle mae deunydd o'r math hwn wedi cael ei gynnwys.
30. Nododd ymateb terfynol y Llywodraeth i adroddiad Comisiwn y Gyfraith fod angen ystyried sawl un o'r argymhellion ymhellach fel rhan o'r broses o baratoi i gydgrynhoi cyfraith cynllunio yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwnnw wedi digwydd erbyn hyn, ac mae'r Tablau Tarddiadau a Thrawsleoliadau ar gyfer y ddwy Ddeddf (ar gael ar [deddfwriaeth.gov.uk](http://deddfwriaeth.gov.uk)) yn crynhoi lle mae argymhellion perthnasol y Comisiwn sydd wedi cael eu gweithredu yn y Bil Cynllunio a'r Bil Darpariaethau Canlyniadol, yn y drefn honno. Mae Atodiadau D1 a D2 hefyd yn cynnig rhagor o wybodaeth lle bo angen.
31. Yn ogystal, gwnaeth Comisiwn y Gyfraith argymhellion pellach i Weinidogion Cymru ynglŷn â materion penodol yr oedd o'r farn y byddai'n briodol eu cynnwys yn y broses gydgrynhoi hon. Nodir y rhain yn Atodiad A y Memorandwm hwn (a noder hefyd Atodiad B).
32. Nid oedd y ffaith bod newid wedi'i argymhell yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith o reidrwydd yn golygu y rhoddwyd dibyniaeth ar baragraff (v) o Reol Sefydlog 26C.2<sup>11</sup>, (sy'n caniatáu i Fil cydgrynhoi wneud newidiadau yn y gyfraith y mae Comisiwn y Gyfraith yn argymhell "eu bod yn briodol i'w cynnwys mewn Bil Cydgrynhoi"). Dim ond pan oedd Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn debygol na fyddai modd newid y naill Fil na'r llall sydd bellach yn Ddeddfau Cynllunio o dan unrhyw baragraff arall o Reol Sefydlog 26C.2 heb argymhelliad o'r fath y ceisiwyd argymhelliad o dan baragraff (v). Mae Nodiadau'r Drafftwy'r yn nodi'r newidiadau yn y Deddfau sy'n dibynnu ar argymhelliad o dan baragraff (v).

## Hygyrchedd a chodeiddio cyfraith Cymru

---

33. Y broses hon o gydgrynhoi yw'r ail mewn cyfres o brosiectau sydd wedi'u cynllunio i gydgrynhoi'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru (y cyntaf oedd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023). Mae'r prosiectau hyn yn rhan ganolog o'r dasg o wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, ac maent yn rhan o raglen Dyfodol Cyfraith Cymru y

---

<sup>11</sup> [Canllawiau i ategu'r drefn o weithredu Rheol Sefydlog 26C ar Filiau Cydgrynhoi: Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 26C.3 ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes \(senedd.cymru\)](#)

Llywodraeth<sup>12</sup>, fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol<sup>13</sup> i Fil Deddfwriaeth (Cymru) a ystyriwyd gan y Senedd yn 2019:

*Trwy sicrhau hygyrchedd cyfraith Cymru yn y tymor hir byddai'r Bil yn dod â manteision sylweddol i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru ac i ddinasyddion preifat trwy ddileu'r rhwystrau i ddefnyddio'r gyfraith yn effeithlon ac yn effeithiol. Bydd yn hyrwyddo gwell hyder yn y gyfraith i fusnes, y Llywodraeth a dinasyddion, gan arwain at benderfyniadau mwy hyderus ac effeithlon ar draws pob rhan o gymdeithas ddinesig a'r sector preifat.*

34. Disgwylir i'r manteision hyn gael eu gwireddu drwy gydgrynhoi deddfwriaeth gynllunio.
35. Unwaith y caiff ei ddeddfu, bydd y Ddeddf Cynllunio, gyda'r is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tano, yn rhan o God Cyfraith Cymru ar gynllunio, adeiladu a thir. Mae'r statws hwnnw'n arwyddocaol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi pob deddfiad sy'n rhan o'r Cod gyda'i gilydd. Yr ail yw bod y Llywodraeth hefyd yn rhagweld, yn amodol wrth gwrs ar gytundeb y Senedd, newid i Reolau Sefydlog y Senedd er mwyn ceisio sicrhau bod newidiadau yn y dyfodol i'r gyfraith sy'n ffurfio rhan o God yn cael eu gwneud drwy ddiwygio neu ddisodli'r deddfiadau yn hytrach na gwneud darpariaethau gwahanol ac "annibynnol" a fyddai unwaith eto yn arwain at doreth cymhleth o gyfreithiau.
36. Ni fwriedir i'r Ddeddf Darpariaethau Canlyniadol ffurfio rhan o God Cyfraith Cymru ar gynllunio, adeiladu a thir. Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 4, mae gan y darpariaethau yn y Ddeddf honno naill ai oes gyfyngedig yn ymarferol neu byddant ond o ddiddordeb cyfyngedig iawn i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr cyfraith cynllunio. Nid oedd y Llywodraeth na'r Senedd o'r farn bod angen camau diogelu posibl y Rheolau Sefydlog ar y Ddeddf Darpariaethau Canlyniadol er mwyn osgoi cael cyfraith cynllunio o natur dameidiog yn y dyfodol.

## **Cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Senedd neu a wnaed gan Weinidogion Cymru**

---

37. Wrth i'r Senedd ystyried Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), fel yr oedd ar y pryd, argymhellodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad<sup>14</sup> bod lle mae Bil

---

<sup>12</sup> [Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026 | GOV. CYMRU](#)

<sup>13</sup> Gweler Tabl 3 (tudalen 45) o'r Memorandwm Esboniadol i Fil Deddfwriaeth (Cymru) (fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2) sydd ar gael yn: [pri-ld11927-em-r-w.pdf](#) (senedd.wales)

<sup>14</sup> Gweler tudalen 65 ac Argymhelliad 4 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Rhagfyr 2022) [Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol](#)

cydgrynhoi yn ymgorffori darpariaethau o Fesur neu Ddeddf Senedd, a bod y darpariaethau hynny wedi cael eu newid wrth eu cydgrynhoi, dylid tynnu sylw at hyn bob tro a'i esbonio. Nid oedd y Llywodraeth yn cytuno'n llwyr â hyn, am fod gan ddeddfwriaeth o'r fath yr un statws â deddfwriaeth arall sy'n cael ei chydgrynhoi. Fodd bynnag, cytunodd y Llywodraeth<sup>15</sup> pan fydd darpariaethau Mesur neu Ddeddf y Senedd yn cael eu hymgorffori, tynnir sylw at hynny yn y Memorandwm Esboniadol i Fil cydgrynhoi.

38. Yn achos y Ddeddf Cynllunio, mae'r deddfiadau sydd wedi cael eu cydgrynhoi bron yn gyfan gwbl yn Ddeddfau Senedd y DU, ond mae'r cydgrynhoi yn ymgorffori diwygiadau a wnaed i'r Deddfau hynny gan wahanol Ddeddfau Senedd Cymru. Yn benodol gan Ddeddf 2015, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a Deddf Seilwaith (Cymru) 2024. Mae hefyd yn ailddatgan nifer fach o ddarpariaethau annibynnol a ddeddfwyd yn Ddeddf 2015.
39. Fel y nodir yn Nhablau Tarddiadau'r Ddeddf Cynllunio (ar gael ar [deddfwriaeth.gov.uk](http://deddfwriaeth.gov.uk)), mewn nifer fach o achosion, mae ailddatgan darpariaeth yn y Ddeddf o ddeddfwriaeth sylfaenol yn ymgorffori elfennau o is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru er mwyn cydgrynhoi'r darpariaethau dan sylw yn fwy boddhaol.
40. Mae'r Ddeddf Darpariaethau Canlyniadol yn gwneud diwygiadau (gan gynnwys diddymiadau) i Fesurau penodol a Deddfau'r Senedd. Mae'r gwelliannau hyn wedi'u nodi ar wahân yn Atodlen 3 i'r Ddeddf honno. Y prif Ddeddfau'r Senedd yr effeithir arnynt yw Deddf 2015, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a Deddf Seilwaith 2024. Mae'r diwygiadau yn cynnwys:
  - a. diwygiadau canlyniadol i sicrhau bod Deddfau eraill y Senedd yn rhyngweithio'n gywir â'r Ddeddf Cynllunio (e.e. lle mae'r Deddfau eraill hynny ar hyn o bryd yn cyfeirio at ddiffiniadau a roddir yn y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi);
  - b. diddymu darpariaethau sydd wedi gwneud diwygiadau i Ddeddfau Senedd y DU nad oes eu hangen mwyach oherwydd bod eu heffaith yn cael ei adlewyrchu yn y Bil cydgrynhoi<sup>16</sup>; ac

---

<sup>15</sup> Gweler [llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol \(bryd hynny\)](#) at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad dyddiedig 18 Ionawr 2023.

<sup>16</sup> Er enghraifft, mae paragraffau 8 a 20(3) a (4) o Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 yn diwygio darpariaethau y mae'r Ddeddf Darpariaethau Canlyniadol yn eu diddymu. Felly, nid oes eu hangen bellach ac maent yn cael eu diddymu gan y Ddeddf honno.

- c. diwygiadau i wneud cywiriadau i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 neu sicrhau ei bod yn gyson â'r Ddeddf Cynllunio, ac eglurir pob un ohonynt yn Nodiadau'r Drafftwy'r ar gyfer y Ddeddf Darpariaethau Canlyniadol.

## **Materion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Cynllunio**

---

41. Mae cyfraith cynllunio gyffredinol yn ymwneud â llawer o feysydd gweithgaredd (os nad pob un), ond nid yw hynny'n golygu y dylai deddfwriaeth sy'n llywodraethu'r meysydd hynny fod yn destun cydgrynhoi cyfraith gynllunio. Wrth baratoi ar gyfer cydgrynhoi, canolbwyntiwyd yn bennaf ar y gyfraith gynllunio bresennol lle mae'r cyfundrefnau cynllunio a sefydlwyd gan y deddfwriaeth honno wedi'u cyfyngu i ddatblygu ar dir. Felly, er enghraifft, nid yw deddfwriaeth am weithgareddau yn y môr, fel Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn cael ei chydgrynhoi o dan y broses hon. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i farn Comisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad Cyfraith Gynllunio yng Nghymru.

### *Materion cyffredinol*

42. Wrth ddatblygu ei gynigion, taflodd Comisiwn y Gyfraith ei rwyd ymhell i ddechrau ynghylch beth y gellid ei ystyried yn "gyfraith gynllunio". Cynhwysai'r gyfraith sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Er bod perthynas agos rhwng y gyfraith sy'n ymwneud â chynllunio a'r amgylchedd hanesyddol, roedd y Senedd eisoes wedi cytuno y dylai fod Cod ar wahân o gyfraith yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru pan basiodd Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn 2023. Mae'r broses gydgrynhoi hon yn cadw'r sefyllfa honno.
43. Ymhellach, roedd y Llywodraeth yn cytuno â Chomisiwn y Gyfraith na ddylai'r gyfraith sy'n ymwneud â chefn gwlad, hawliau tramwy, yr amgylchedd a bywyd gwyllt gael ei chynnwys o fewn Cod cynllunio i Gymru. O'r herwydd, nid yw'r materion hyn wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Cynllunio.

### *Trwyddedau cwmpo coed*

44. Roedd y papur ymgynghori a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gyfraith wrth ddatblygu ei gynigion ar gyfer *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* yn ystyried i ddechrau a ddylid codeiddio darpariaethau Deddf Coedwigaeth 1967 sy'n ymwneud â thrwyddedau cwmpo. Mae'r Ddeddf Cynllunio yn gwneud darpariaeth ynghylch gorchmynion cadw coed, yn rhannol am eu bod yn rhan o'r deddfwriaeth gynllunio bresennol ond hefyd am fod y pwerau yn cael eu rhoi i awdurdodau cynllunio a bod dyletswydd ar yr awdurdodau hynny i ystyried eu defnyddio wrth roi caniatâd cynllunio. Mae TPOs yn

ymwneud â gwarchod coed penodol sydd â gwerth amwynderol. Mewn cyferbyniad, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n rhoi trwyddedau cwmpo a rhaid eu cael er mwyn cael cwmpo coeden uwchlaw maint penodol y tu allan i erddi preifat. Mae trwyddedau o'r fath yn rhan o ystod o bwerau coedwigaeth sydd gan CNC y mae eu dibenion yn cynnwys rheoli coedwigoedd a chynnal cyflenwadau pren, yn ogystal â gwarchod natur ac amwynder. Felly, roedd y Llywodraeth yn cytuno â'r safbwynt a gymerwyd yn y pen draw gan Gomisiwn y Gyfraith na fyddai'n ddefnyddiol nac yn gwella hygyrchedd cyfraith Cymru i symud rhan o'r ddeddfwriaeth goedwigaeth a weinyddir gan CNC i'r ddeddfwriaeth gynllunio sy'n cael ei gweinyddu gan awdurdodau cynllunio at ddibenion gwahanol.

#### *Codi gwrychoedd (perthi)*

45. Ymatebodd y Gymdeithas Tir a Busnes Gwledig i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ac awgrymodd pe bai trefniadau rheoleiddio gwaith ar goed yn cael ei gynnwys mewn cyfraith gynllunio gaiff ei chydgrynhoi yn y dyfodol, yna dylid ystyried cynnwys y gyfraith berthnasol sy'n rheoleiddio codi gwrychoedd. Mae Rheoliadau Gwrychoedd 1997, a wnaed o dan adran 97 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau cynllunio. Fodd bynnag, fel y nododd Comisiwn y Gyfraith,<sup>17</sup> mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol yn gyfyngedig iawn o ran ei chwmpas ac mae'r Rheoliadau bron heb eu cyffwrdd ers iddynt gael eu gwneud gyntaf. Mae'r Llywodraeth yn nodi bod cysylltiad rhwng y gyfraith sy'n rheoleiddio codi gwrychoedd a chyfraith gynllunio, oherwydd rôl awdurdodau cynllunio, ond credwn ninnau, fel Comisiwn y Gyfraith, na ddylid ei chynnwys mewn cod cyfraith gynllunio ar gyfer Cymru. Yn hytrach, gan fod y pwnc hwn yn alinio'n nes at amaethyddiaeth, rheoli cefn gwlad, yr amgylchedd a'r amgylchedd hanesyddol, byddai'n fwy priodol ystyried y ddeddfwriaeth hon wrth adolygu neu gydgrynhoi deddfwriaeth cefn gwlad yn y dyfodol.

#### *Sylweddau peryglus*

46. Cafodd y drefn reoleiddio sy'n ymwneud â chadw sylweddau peryglus ar dir ei chydgrynhoi ar wahân yn Neddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990. Mewn ymateb i bapur ymgynghori Comisiwn y Gyfraith, dywedodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch na fyddai caniatâd sylweddau peryglus y tu allan i gwmpas y cod yn broblem iddynt. Nododd Comisiwn y Gyfraith hefyd fod Deddf 1990 sy'n delio â'r mater hwn. "*i bob golwg i weld yn gweithredu'n foddhaol ar y cyfan; ac ymddengys nad oes angen arbennig i'w newid ar hyn o bryd.*" Nid yw'r cydgrynhoad yn cynnwys y pwnc hwn, ond mae'n parhau'n opsiwn i greu Deddf arall o fewn y Cod Cynllunio yn y dyfodol, sy'n delio â mesurau arbennig ar gyfer rheoli sylweddau peryglus.

---

<sup>17</sup> Paragraff 3.60, [Papur Ymgynghori Cyfraith Cynllunio yng Nghymru](#), Tachwedd 2017.

### *Prynu gorfodol*

47. Prynu gorfodol yw'r broses a ddefnyddir gan awdurdod cyhoeddus fel arfer i gaffael tir, i'w ddefnyddio er budd y cyhoedd, heb ganiatâd y perchennog, yn amodol ar hawl y perchennog a'r meddiannydd sy'n ei golli, i gael iawndal. O'r herwydd, mae cysylltiad clir rhwng y gyfraith gyffredinol ynghylch prynu gorfodol a chyfraith gynllunio, hynny oherwydd y pwnc. Ond mae'n bwnc sylweddol. Roedd Comisiwn y Gyfraith o'r farn na ddylai'r prosiect i gydgrynhoi cyfraith gynllunio ymestyn i'r gyfraith gyffredinol ynghylch prynu gorfodol ac iawndal. Fodd bynnag, yn ogystal â'r gyfraith gyffredinol honno, mae nifer o statudau sy'n cynnwys darpariaethau sy'n galluogi caffael tir, naill ai trwy ddefnyddio pwerau gorfodi neu drwy gytundeb, at ddibenion penodol sy'n gysylltiedig â phwnc y Ddeddf dan sylw. Dyma'r achos y oran Deddf 1990. Mae Rhannau 9 ac 11 o Ddeddf 1990 yn cynnwys hefyd nifer fach o ddarpariaethau ynghylch datblygu a defnyddio mathau penodol o dir a gafodd ei gaffael trwy orfodaeth o dan ddeddfwriaeth arall. Mae'r Ddeddf Cynllunio yn cydgrynhoi'r darpariaethau hynny, ond nid y gyfraith gyffredinol sy'n ymwneud â phrynu gorfodol.

### *Seilwaith*

48. Cydsyniad datblygu yw'r caniatâd a roddir gan Lywodraeth y DU ar gyfer prosiectau seilwaith mawr dros drothwy penodol yng Nghymru a Lloegr, a elwir yn Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs). Ymdrinnir â hyn o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ('Deddf 2008'). Mae cydsyniad datblygu mewn perthynas â chategoriâu penodol o NSIPs yn destun neilltuedig o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
49. Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ('Deddf 2024') yn sefydlu un broses cydsynio ar gyfer mathau a throthwyon penodol o brosiectau seilwaith mawr datganoledig ar dir ac yn y môr tiriogaethol, a elwir yn "brosiectau seilwaith arwyddocaol" (SIPs).
50. Mae Deddf 2008 a Deddf 2024 ill dau yn Ddeddfau mawr sy'n sefydlu cyfundrefnau cydsynio ar wahân. Nid yw cydsyniad seilwaith a datblygu yn ganiatâd cynllunio, ac maent yn drech nag unrhyw gydsyniad neu ganiatâd cynllunio arall gan awdurdod cynllunio lleol. Maent felly y tu allan i'r broses caniatâd cynllunio – sef, mewn geiriau eraill, prif bwrpas deddfwriaeth gynllunio. At hynny, nid ydynt wedi'u cyfyngu i ddatblygiadau ar dir ond mae'r ddeddfwriaeth sydd wedi cael ei chydgrynhoi wedi'i chyfyngu.
51. Mae'r Ddeddf Cynllunio yn ailddatgan darpariaethau Deddf 1990 sy'n ymwneud â phriffyrdd ac ymgwymerwyr statudol, am eu bod yn ymdrin â goblygiadau datblygu neu gaffael tir yn unol â darpariaethau eraill Deddf 1990. Mae nifer o Ddeddfau eraill hefyd

yn gwneud darpariaethau ynghylch awdurdodi adeiladu a gweithredu seilwaith mewn meysydd eraill (er enghraifft trafndiaeth ac ynni). I'r graddau y mae'r materion hynny o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, nid yw'r Llywodraeth yn ystyried bod y rheini'n rhan o gyfraith cynllunio gyffredinol ond yn hytrach maen nhw'n rhan o destun y Deddfau dan sylw.

#### *Asesiadau amgylcheddol:*

52. Mae Rhan 6 o Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 ('Deddf 2023') yn disodli'r pwerau presennol sy'n deillio o'r UE i wneud rheoliadau ynghylch "asesu effeithiau amgylcheddol" ac "asesiadau amgylcheddol strategol" a rhoi pwerau yn eu lle i wneud rheoliadau ynghylch "adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol". Bydd y rheoliadau hynny'n berthnasol wrth wneud cynlluniau a rhoi cydsyniadau o dan y Ddeddf Cynllunio ond byddant hefyd yn berthnasol mewn amrywiol gyd-destunau eraill fel trafndiaeth ac amaethyddiaeth. Am eu bod yn ddarpariaethau cyffredinol a fydd yn berthnasol i ystod eang o gydsyniadau a chynlluniau, nid dim ond rhai o dan y Ddeddf Cynllunio, nid oeddent wedi'u cynnwys yn y Ddeddf cydgrynhoi.
53. Mae yna hefyd ddarpariaethau yn Neddf 2023 sy'n berthnasol i gynllunio ac sy'n gymwys i Gymru. Mae Pennod 1 o Ran 3 o'r Ddeddf honno yn ymwneud â chael, prosesu a chyhoeddi "data cynllunio" ac mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ac "awdurdodau cynllunio perthnasol". Fodd bynnag, maent ond yn berthnasol i Gymru i'r graddau y maent yn ymwneud â swyddogaethau o dan Ran 6 o Ddeddf 2023 ynghylch adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol ac felly ni chawsant eu cynnwys.

#### *Safonau adeiladu a diogelwch*

54. Mae'r Ddeddf Cynllunio yn nodi ei fod yn rhan o god o gyfreithiau sy'n ymwneud â chynllunio. Rhagwelwyd y byddai'r cod hwn hefyd yn cynnwys y gyfraith yn ymwneud ag adeiladau a thir, ac y byddai yn y pen draw yn cynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud â dylunio ac adeiladu adeiladau, sydd ar hyn o bryd i'w gweld yn bennaf yn Neddf Adeiladu 1984. Nid yw'r deddfwriaeth honno yn cael ei hystyried yn rhan o gyfraith gynllunio.
